# Ymgynghoriad Ofcom ar ymagwedd at asesu effaith

**YMGYNGHORIAD:**

**Dyddiad cyhoeddi:** 17 Mawrth 2023

**Dyddiad cau ar gyfer ymatebion:** 12 Mai 2023

# Cynnwys

## Section

1. Trosolwg 3
2. Cyflwyniad 4
3. Newidiadau arfaethedig i’n canllawiau asesu effaith 6
4. Asesiad o effaith ein newidiadau arfaethedig 11

## Annex

A1. Ymateb i’r ymgynghoriad hwn 12
A2. Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori 15
A3. Dalen gyflwyno’r ymgynghoriad 16
A4. Cwestiynau’r ymgynghoriad 17

# 1. Trosolwg

**Rydym yn ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i'n canllawiau asesu effaith i adlewyrchu ein rhwymedigaethau cyfreithiol newydd, ein harferion gorau a'n profiad.**

Ofcom yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer sector cyfathrebu'r DU. Yn y rôl hon rydym yn gwneud amrywiaeth o benderfyniadau polisi er budd dinasyddion a defnyddwyr, a phan fo'n briodol i hyrwyddo cystadleuaeth. Mae ein canllawiau ar asesu effaith yn nodi ein dull gweithredu cyffredinol o ran sut rydym yn asesu effaith ein penderfyniadau arfaethedig.

### Beth rydym yn ei gynnig – yn gryno

Ac ystyried oedran ein canllawiau yn 2005, rydym yn cynnig newidiadau i'w cysoni â'n dull presennol o asesu effeithiau, gan gynnwys y newidiadau allweddol canlynol:

- Cydnabod sut mae ein dyletswyddau'n amrywio ar draws ystod gynyddol eang o sectorau.
- Adlewyrchu ein ffocws yn well ar ddewis y dull lleiaf ymwthiol er mwyn cyflawni ein hamcanion.
- Diweddaru sut rydym yn cyflwyno ein hasesiadau effaith i randdeiliaid.
- Mwy o gydnabyddiaeth bod effeithiau ansoddol yn rhan bwysig o asesu rhai penderfyniadau polisi.
- Cydnabod bod asesiadau effaith yn fewnbwn pwysig ar gyfer gwerthusiadau terfyn rhaglen.
- Diweddaru sut rydym yn datblygu asesiad effaith yng ngoleuni dulliau ac adnoddau asesu newydd.
- Diweddaru'r canllawiau i gyfeirio at ein dyletswyddau a'n rhwymedigaethau cydraddoldeb presennol yn y sector cyhoeddus yng nghyswllt y Gymraeg.

### Y camau nesaf

- Rydym yn croesawu ymatebion gan yr holl randdeiliaid ac unigolion tan y dyddiad cau sef 12 Mai 2023.
- Rydym yn disgwyl cyhoeddi fersiwn derfynol o'r canllawiau newydd ar asesu effaith yn gynnar yn Ch3 2023.
- Daw'r canllawiau newydd i rym pan fyddwn yn cyhoeddi ein Datganiad a byddant yn berthnasol i brosiectau sy'n dechrau ar y dyddiad hwn neu ar ôl hynny.
- I gael rhagor o wybodaeth am ymateb i'r ymgynghoriad hwn, edrychwch ar Atodiad 1.

# 2. Cyflwyniad

## Ein dull o asesu effeithiau

1.1 Rydym yn cydnabod bod y penderfyniadau rydym yn eu gwneud yn gallu sicrhau gwerth sylweddol i ddinasyddion ac i ddefnyddwyr, ond eu bod hefyd yn gallu arwain at gostau sylweddol i'n rhanddeiliaid. Felly, mae'n bwysig i ni feddwl yn ofalus cyn penderfynu a fyddai ymyriad polisi penodol yn briodol.

1.2 Rydym yn defnyddio asesiadau effaith i'n helpu i ddeall ac asesu effaith bosibl ein penderfyniadau polisi cyn i ni eu gwneud. Maent hefyd yn ein helpu i egluro'r penderfyniadau polisi rydym wedi penderfynu eu gwneud.

1.3 Mae'n bwysig bod y ffordd rydym yn asesu effeithiau ein penderfyniadau arfaethedig yn seiliedig ar dystiolaeth, yn gymesur, yn gyson, yn atebol ac yn dryloyw o ran ystyriaeth a chanlyniad. Mae hefyd yn bwysig ein bod bob amser yn ceisio defnyddio'r dulliau rheoleiddio lleiaf ymwthiol er mwyn cyflawni ein hamcanion polisi.

1.4 Diben ein canllawiau ar asesu effaith yw nodi ein dull gweithredu cyffredinol o ran sut rydym yn asesu ac yn cyflwyno effaith ein penderfyniadau arfaethedig.

## Pam rydym yn diweddaru ein dull o asesu effaith

1.5 Mae'r cyd-destun yr ydym yn llunio asesiadau effaith ynddo wedi newid ers i ni gyhoeddi'r canllawiau diwethaf yn 2005.[1]

1.6 Mae ein cyfrifoldebau cyfreithiol wedi ehangu, ac rydym bellach yn rheoleiddio ystod ehangach o sectorau, pob un â'i nodweddion a'i heriau ei hun. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 hefyd wedi cael eu cyflwyno, ochr yn ochr â newidiadau deddfwriaethol eraill, nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu ar hyn o bryd yn ein canllawiau ar gyfer 2005.

1.7 Er nad yw egwyddorion sylfaenol asesu effaith wedi newid yn sylweddol, mae adnoddau a chanllawiau newydd ar gael erbyn hyn. Er enghraifft, mae canllawiau Trysorlys EM yn y llyfrau Gwyrdd a Magenta wedi cael eu diweddaru.[2] Mae dulliau newydd fel theorïau newid wedi cael eu cyflwyno yn y llenyddiaeth i helpu llunwyr polisi i rannu eu rhesymeg. Mae safbwyntiau dadansoddol newydd wedi cael eu defnyddio, gan gynnwys defnyddio gwybodaeth am ymddygiad i ystyried ymddygiad defnyddwyr, a defnyddio setiau data mawr i wneud rhagfynegiadau.

1.8 Rydym hefyd wedi parhau i ddatblygu ein sgiliau ein hunain, gan feithrin mwy o brofiad o asesu effeithiau. Er enghraifft, pan gyhoeddwyd canllawiau 2005, yr oeddem yn datblygu dull o werthuso. Ers hynny, rydym wedi cyflwyno gwerthusiadau terfyn rhaglen cyfnodol i adolygu effaith rhai polisïau ac rydym yn parhau i ystyried y ffordd

[1] https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/better-policy-making-ofcoms-approach-to-impact-assessment

orau o fonitro a gwerthuso effaith ein gwaith. Gall asesiad effaith gwreiddiol prosiect gyfrannu at gynllun y gwerthusiad terfyn rhaglen.

1.9 Am yr holl resymau hyn, rydym yn cynnig diweddaru ein canllawiau i adlewyrchu ein rhwymedigaethau cyfreithiol presennol a'n profiad a'n harferion gorau.

1.10 Ac ystyried yr amser sydd wedi mynd heibio ers ein canllawiau yn 2005, rydym hefyd yn cynnig adnewyddu ac ailstrwythuro'r canllawiau yn gyffredinol i'w gwneud yn haws i'w defnyddio.

1.11 Rydym wedi disgrifio'r newidiadau allweddol yn fanwl isod. Rydym hefyd wedi cyhoeddi fersiwn diwygiedig arfaethedig o'n canllawiau asesu effaith ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn.

# 3. Newidiadau arfaethedig i'n canllawiau asesu effaith

1.12 Rydym yn cynnig ail-lunio ein canllawiau yn 2005 i'w cysoni â'n rhwymedigaethau cyfreithiol newydd yn ogystal ag arferion gorau a phrofiad. Rydym wedi crynhoi'r newidiadau allweddol yn fanwl isod.

## Cydnabod sut mae ein dyletswyddau'n amrywio ar draws ystod gynyddol eang o sectorau.

1.13 Wrth gynllunio asesiad effaith, mae'n bwysig ystyried y cyd-destun y mae'n cael ei gynnal ynddo. Yn Ofcom rydym yn rheoleiddio nifer o sectorau, gyda phwerau a chyfrifoldebau amrywiol ym mhob un. Rydym yn rheoleiddio ystod ehangach o sectorau a rhanddeiliaid ac mae gennym fwy o ddyletswyddau nag oedd gennym yn 2005 pan ysgrifennwyd ein canllawiau asesu effaith blaenorol. Mae'r rhanddeiliaid hyn yn cynnwys gwasanaethau post, y BBC, a llwyfannau fideo ar-alw, a dyletswyddau newydd ar weithredwyr gwasanaethau hanfodol ar gyfer seilwaith digidol. Adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, rydym hefyd yn disgwyl cael pwerau gan y Llywodraeth i reoleiddio diogelwch ar-lein yn y DU.

1.14 Mae'n bwysig bod ein canllawiau ar asesu effaith yn ystyried yr ystod gynyddol o benderfyniadau polisi y gallwn eu gwneud ar draws y gwahanol sectorau yr ydym yn eu rheoleiddio yn awr. Er enghraifft, gall sut y gallwn neu sut y byddwn yn penderfynu asesu effaith penderfyniad arfaethedig amrywio'n sylweddol rhwng sectorau, yn dibynnu ar y math o randdeiliaid rydym yn eu rheoleiddio a'r data meintiol neu ansoddol a allai fod ar gael i ni.

1.15 Bydd sut rydym yn asesu'r effeithiau hefyd yn dibynnu ar ein rhwymedigaethau statudol perthnasol. Ysgrifennwyd canllawiau 2005 i gyd-fynd â'n dyletswydd gyffredinol yn adran 7 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau i asesu effeithiau. Fodd bynnag, mae rhai cyfundrefnau sector-benodol hefyd yn gosod gofynion penodol ar gyfer pryd neu sut y mae'n rhaid i ni gynnal asesiadau effaith. Daw rhai o'r rhwymedigaethau hyn o ddeddfwriaeth nad oedd mewn grym pan wnaethom gyhoeddi ein canllawiau yn 2005 ac maent yn berthnasol i rai o'r sectorau newydd yr ydym yn eu rheoleiddio yn awr.

1.16 Mae ein diweddariadau arfaethedig i ganllawiau 2005 yn adlewyrchu rhai o nodweddion penodol gwahanol gyfundrefnau ac yn adlewyrchu ein hystod gynyddol o ddyletswyddau. Mae hyn yn sicrhau bod gennym yr hyblygrwydd i benderfynu ar y ffordd fwyaf priodol o asesu effeithiau, gan ystyried y cyd-destun polisi perthnasol a'n dyletswyddau statudol.

1.17 Oherwydd rhai deddfwriaethau sy'n mynnu ein bod yn ymyrryd, rydym hefyd yn cynnig:

a) dileu'r egwyddor gyffredinol y byddwn bob amser yn gweithredu gyda thuedd yn erbyn ymyrryd. Rydym yn trafod y cynnig hwn yn fanylach isod; ac

b) yn diweddaru'r mathau o sefyllfaoedd lle na fyddwn fel arfer yn cynnal asesiad effaith i gynnwys y sefyllfa lle mae deddfwriaeth yn mynnu ein bod yn ymyrryd mewn ffordd benodol a bod asesiad effaith wedi'i gynnal cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth honno.

## Gwell adlewyrchiad o'n ffocws ar ddewis y dull lleiaf ymwthiol er mwyn cyflawni ein hamcanion

1.18 Roedd ein canllawiau yn 2005 yn canolbwyntio ar weithredu bob amser gyda thuedd yn erbyn ymyrryd ac nid rheoleiddio lle bo hynny'n bosibl. Mae hon yn dal yn egwyddor bwysig oherwydd ein rhwymedigaeth yn adran 6(1) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau – sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni sicrhau nad yw ein gwaith rheoleiddio'n cynnwys "*gosod beichiau diangen*" neu "*gynnal beichiau sydd wedi dod yn ddiangen*".

1.19 Fodd bynnag, mewn sawl achos, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu na fydd grymoedd y farchnad ar eu pen eu hunain yn cyflawni canlyniadau polisi penodol a bod deddfwriaeth wedi'i gwneud sy'n mynnu ein bod yn ymyrryd (er y gallai ffurf yr ymyriad hwnnw gael ei adael i'n disgresiwn ni). Er enghraifft, mae ein rhwymedigaethau sy'n ymwneud â llwyfannau rhannu fideos yn mynnu ein bod yn ymyrryd yn amlach na pheidio. Mae'r Rheoliadau Rhwydwaith a Systemau Gwybodaeth hefyd yn mynnu ein bod yn cymryd camau amrywiol, gan gynnwys cyhoeddi canllawiau ar gyfer yr is-sector seilwaith digidol.[3] Bydd y pwerau rydym yn disgwyl eu cael yng nghyswllt diogelwch ar-lein hefyd yn golygu y bydd angen i ni wneud ymyriadau amrywiol.

1.20 I adlewyrchu'r newid hwn yn y tirlun deddfwriaethol, rydym yn cynnig dileu'r egwyddor gyffredinol y byddwn bob amser yn gweithredu gyda thuedd yn erbyn ymyrryd. Yn hytrach, rydym yn cynnig canolbwyntio ar sicrhau bod unrhyw ymyriad yr ydym yn ei ddewis yn gymesur a'r dull lleiaf ymwthiol er mwyn cyflawni ein hamcan.

## Diweddaru sut rydym yn cyflwyno ein hasesiadau effaith i randdeiliaid

1.21 Mae ein canllawiau yn 2005 yn egluro y bydd ein hasesiadau effaith yn cael eu cyflwyno fel arfer mewn atodiad ar wahân.

1.22 Nid yw llawer o'r problemau polisi yr ydym yn delio â nhw yn ddu a gwyn. Gall fod llawer o wahanol ffactorau'n rhyngweithio â'i gilydd sy'n gallu dylanwadu ar ganlyniad asesiad effaith. O ganlyniad, weithiau gall y rhesymeg y tu ôl i benderfyniad penodol fod yn gymhleth. Oherwydd hyn, mewn rhai achosion mae'n well i'r eglurhad o'n penderfyniad gael ei gynnwys drwy'r ddogfen gyfan, yn hytrach nag mewn atodiad ar

[3] Our network security and network resilience work: https://www.ofcom.org.uk/phones-telecoms-and-internet/information-for-industry/network-security-and-resilience/our-work

wahân. Mae hyn yn ein galluogi i sicrhau bod ein penderfyniad yn cael ei egluro yng nghyd-destun y mater.

1.23 Ers cyhoeddi ein canllawiau yn 2005, rydym wedi cynnal llawer o asesiadau effaith. Rydym wedi canfod bod y ffordd hon o integreiddio'r asesiad effaith i'r broblem polisi sy'n cael ei hystyried yn gallu bod yn ffordd ymarferol i ni egluro ein dadansoddiad yn glir pan fyddwn yn cyhoeddi dogfennau.

1.24 Rydym yn ceisio gwneud ein dogfennau mor syml â phosibl, ac rydym yn credu bod ein hasesiadau effaith yn aml yn haws eu deall drwy eu hymgorffori yn y ddogfen, yn hytrach na bod yn atodiad ar wahân.

1.25 Yng ngoleuni'r arferion gorau a'r profiad, rydym felly'n cynnig dileu'r canllawiau y bydd asesiadau effaith yn cael eu cyhoeddi fel arfer mewn atodiad ar wahân. Yn hytrach, rydym yn cynnig egluro y bydd y ffurf rydym yn cyflwyno asesiad effaith yn amrywio gan ddibynnu ar yr hyn sy'n briodol yn ein barn ni yn yr amgylchiadau. Rydym hefyd yn bwriadu egluro y bydd ein dogfennau/datganiadau ymgynghori fel arfer yn cynnwys adran o'r enw "Asesiad o'r Effaith" (neu debyg) a fydd naill ai'n crynhoi canlyniadau ein hasesiad o effaith neu'n nodi lle yn yr ymgynghoriad/datganiad rydym wedi cyhoeddi canlyniadau ein hasesiad o effaith.

## Mwy o gydnabyddiaeth bod effeithiau ansoddol yn rhan bwysig o benderfyniadau polisi

1.26 Rydym yn cynnig rhoi mwy o bwyslais yn ein canllawiau ar asesu ansoddol sydd yr un mor bwysig ag asesiadau meintiol. Mae angen i ni roi pwys priodol ar bob effaith pan fyddwn yn cynnal asesiad, hyd yn oed y rhai lle byddai'n amhriodol mesur yr effaith. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r gwaith rydym yn ei wneud ar niwed gan nad yw'n ariannol yn aml. Mae hefyd yn un ffordd o sicrhau bod ein canllawiau'n cyd-fynd â'r ystod gynyddol o benderfyniadau polisi y gallwn eu gwneud ar draws y gwahanol sectorau rydym yn eu rheoleiddio ar hyn o bryd.

## Cydnabod bod asesiadau effaith yn fewnbwn pwysig ar gyfer gwerthusiadau terfyn rhaglen

1.27 Mae gwerthusiadau terfyn rhaglen yn ddull o edrych yn ôl ar ganlyniad gwirioneddol polisi ar ôl ei weithredu i werthuso ei lwyddiant ac i weld a ddigwyddodd pethau fel yr oeddem yn ei ddisgwyl. Adeg ysgrifennu ein canllawiau yn 2005, dim ond newydd ddechrau ein rhaglen werthuso terfyn rhaglen yr oeddem. Dim ond cyfeiriad at sut y gallai asesiadau effaith gyfrannu at werthuso'r penderfyniad polisi ar ôl ei roi ar waith oedd ein canllawiau yn 2005 yn ei gynnwys. Yn yr amser ers i ni ysgrifennu'r canllawiau hynny, rydym wedi dechrau llunio gwerthusiadau terfyn rhaglen yn rheolaidd.

1.28 Rydym yn cynnig diweddaru'r canllawiau i adlewyrchu ein bod nawr yn gwybod beth yw'r ffordd orau o ddefnyddio asesiadau o effaith mewn gwerthusiadau terfyn rhaglen.

Mae'r canllawiau arfaethedig yn cydnabod pwysigrwydd asesiadau effaith yn ein rhaglen ehangach o fonitro a gwerthuso.

## Diweddaru sut rydym yn datblygu asesiad effaith yng ngoleuni dulliau ac adnoddau asesu newydd

1.29 Mae ein canllawiau yn 2005 yn defnyddio dull llinol i ddisgrifio'r broses o lunio asesiad effaith. Mae'n nodi pob cam o'r broses fel un sy'n digwydd yn ei dro, a'r canlyniad terfynol fydd yr asesiad effaith.

1.30 Rydym yn cynnig diweddaru canllawiau 2005 i ganolbwyntio ar sut rydym yn datblygu asesiad effaith fel rhan o broses iterus. Mae hyn yn adlewyrchu'r pwyslais cynyddol rydym yn ei roi ar feddwl am effeithiau posibl drwy gydol prosiect. Wrth asesu effeithiau'n barhaus, mae'n bosibl, wrth i'n syniadau fynd rhagddynt, y bydd yn rhaid i ni adolygu a diwygio'r effeithiau posibl a ystyrir. Felly, rydym yn cynnig adlewyrchu'r hyblygrwydd sydd ei angen ar ddull iterus yn ein canllawiau.

1.31 Ar ben hynny, rydym yn cynnig peidio â chyfeirio at asesiadau effaith sy'n ystyried gwahanol 'opsiynau' yn ein canllawiau. Y rheswm am hyn yw ei bod yn amlwg, mewn rhai achosion, mai dim ond un opsiwn ymarferol sydd ar gael, er enghraifft, os yw cwmpas y cwestiwn polisi yn gul iawn, neu os yw deddfwriaeth yn cyfyngu ar ein pwerau yn y maes. Yn yr achosion hyn, mae'n ddefnydd aneffeithlon ac anghymesur o adnoddau i asesu effeithiau opsiynau afrealistig. Felly, rydym yn cynnig diweddaru ein canllawiau i adlewyrchu'n well nad yw'n realistig mewn rhai achosion asesu nifer o opsiynau.

1.32 Rydym hefyd yn cynnig diweddaru ein canllawiau i esbonio y gallem ddefnyddio canllawiau'r Llywodraeth ar asesiadau effaith, fel Y Llyfr Gwyrdd[4], wrth gynnal asesiadau effaith. Rydym hefyd yn cynnig cyfeirio at ddulliau asesu ychwanegol y gellir eu defnyddio mewn asesiad effaith, er enghraifft 'damcaniaeth newid'. Mae'r rhain yn gyfeiriadau dewisol, ond defnyddiol, y gallwn eu defnyddio wrth gynnal asesiad effaith.

## Diweddaru'r canllawiau i gyfeirio at ein dyletswyddau a'n rhwymedigaethau cydraddoldeb presennol yn y sector cyhoeddus yng nghyswllt y Gymraeg

1.33 Pan ysgrifennwyd canllawiau 2005, yr oedd deddfwriaeth ar wahân yn ymwneud â chydraddoldeb hiliol a chydraddoldeb anabledd a oedd yn berthnasol ym Mhrydain Fawr. Mae ein rhwymedigaethau cydraddoldeb sector cyhoeddus sy'n berthnasol i Brydain Fawr bellach wedi'u cyfuno yn adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried effeithiau posibl ar ystod ehangach o grwpiau o bobl a nodir yn yr adrannau hynny fel rhai sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae ein

[4] Swyddogaeth Cyllid Trysorlys a Llywodraeth EM, The Green Book (2022), https://www.gov.uk/government/publications/the-green-book-appraisal-and-evaluation-in-central-governent/the-green-book-2020

dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus yng nghyswllt Gogledd Iwerddon wedi'u nodi yn adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998.

1.34 Rydym yn cynnig diweddaru ein canllawiau i adlewyrchu ein dyletswyddau cydraddoldeb presennol ac i egluro sut rydym yn bwriadu cydymffurfio â'r dyletswyddau hynny.

1.35 Rydym hefyd yn cynnig diweddaru ein canllawiau i gyfeirio at ein rhwymedigaethau i ystyried y canlynol:

a) effeithiau posibl ar anghenion a buddiannau grwpiau o bobl a nodir yn adran 3(4) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003; a

b) lle cysylltir â Safonau'r Gymraeg, effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.[5]

1.36 Rydym yn cynnig ychwanegu adran 5 newydd at ein dyletswyddau statudol eraill i ystyried effeithiau ar ddiwedd ein canllawiau.

---

[5] Mae statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru (gweler Adran 1(1) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011). Er mwyn gweithredu hyn, mae'n ofynnol i rai cyrff cyhoeddus, gan gynnwys Ofcom, gydymffurfio â safonau'r Gymraeg yng nghyswllt defnyddio'r Gymraeg, gan gynnwys yr egwyddor gyffredinol na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.

# 4. Asesiad o effaith ein newidiadau arfaethedig

1.37 Mae Adran 7 y Ddeddf Cyfathrebiadau yn mynnu ein bod yn cynnal ac yn cyhoeddi asesiad o effaith debygol rhoi cynnig ar waith a fyddai'n debygol o gael effaith sylweddol ar fusnesau neu ar y cyhoedd, neu pan fydd newid mawr yng ngweithgareddau Ofcom.

1.38 Rydym o'r farn na fydd y cynigion rydym yn ymgynghori yn eu cylch naill ai'n cael unrhyw effaith ychwanegol (i'r graddau eu bod eisoes yn adlewyrchu ein harferion a'n profiad gorau) neu y byddant yn tueddu i gael effaith gadarnhaol ar randdeiliaid, dinasyddion a defnyddwyr drwy sicrhau'r canlynol:

a) darparu mwy o dryloywder yn ein proses gwneud penderfyniadau;

b) rhoi mwy o wybodaeth i randdeiliaid am ein dull presennol o asesu effeithiau a'r dystiolaeth a'r rhesymeg y tu ôl i gynnig, a ddylai yn ei dro eu galluogi i gymryd rhan lawn yn ein proses gwneud penderfyniadau ac ymateb gyda'u barn a'u tystiolaeth wybodus eu hunain;

c) sicrhau bod ein penderfyniadau'n ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael;

d) sicrhau bod ein penderfyniadau'n gymesur a'n bod yn dewis y dull lleiaf ymwthiol o gyflawni ein hamcanion;

e) sicrhau ein bod yn gwneud y penderfyniadau gorau er budd dinasyddion a defnyddwyr yn y pen draw.

1.39 Rydym hefyd wedi ystyried a fydd ein cynigion yn cael effaith benodol ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig (gan gynnwys hil, oedran, anabledd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas a phartneriaeth sifil a chrefydd neu gred yn y DU a hefyd dibynyddion a barn wleidyddol yng Ngogledd Iwerddon), ac yn benodol a ydynt yn gallu gwahaniaethu yn erbyn pobl o'r fath neu effeithio ar gydraddoldeb cyfle neu gysylltiadau da. Mae'r asesiad hwn yn ein helpu i gydymffurfio â'n dyletswyddau o dan adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998.

1.40 Nid ydym yn credu y bydd unrhyw un o'r newidiadau arfaethedig i'n Canllawiau ar yr Asesiad o'r Effaith yn cael unrhyw effeithiau ar gydraddoldeb (boed hynny yng Ngogledd Iwerddon neu yng ngweddill y DU). I'r graddau rydym yn cynnig sicrhau bod ein Canllawiau yn adlewyrchu ein rhwymedigaethau cydraddoldeb presennol a sut rydym yn bwriadu cydymffurfio â nhw, dylai ein cynigion gael effeithiau cadarnhaol ar gydraddoldeb. Yn benodol, dylent ganiatáu i bobl fod yn fwy gwybodus am ein dull presennol o asesu effeithiau ar gydraddoldeb a'r dystiolaeth a'r rhesymeg y tu ôl i gynnig. Dylai hyn, yn ei dro, ganiatáu iddynt gymryd rhan lawn yn ein proses gwneud penderfyniadau ac ymateb gyda'u barn a'u tystiolaeth wybodus eu hunain. Yn y pen draw, dylai hyn wella ein prosesau gwneud penderfyniadau.

# A1. Ymateb i’r ymgynghoriad hwn

## Sut mae ymateb

A1.1 Os hoffech gyflwyno safbwyntiau a sylwadau ar y materion a godir yn y ddogfen hon, gwnewch hynny erbyn dydd Gwener 12 Mai 2023.

A1.2 Gallwch lwytho ffurflen ymateb i lawr o https://www.ofcom.org.uk/cymru/consultations-and-statements/category-1/impact-assessment-guidance. Gallwch ddychwelyd y ffurflen dros e-bost neu drwy'r post i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen ymateb.

A1.3 Os yw eich ymateb yn ffeil fawr, neu os yw’n cynnwys siartiau, tablau neu ddata arall i’w gefnogi, anfonwch ef dros e-bost i ImpactAssessmentGuiance.ofcom.org.uk, fel atodiad mewn fformat Microsoft Word, ynghyd â’r ddalen gyflwyno. Dim ond ar gyfer yr ymgynghoriad hwn y mae’r cyfeiriad e-bost hwn, ac ni fydd yn ddilys ar ôl XXX.

A1.4 Fel arall, gellir postio ymatebion i’r cyfeiriad isod, a theitl yr ymgynghoriad wedi’i farcio arnynt:

Ymgynghoriad ar ganllawiau asesu effaith
Ofcom
Riverside House
2A Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA

A1.5 Mae croeso i chi gyflwyno ymatebion mewn fformatau eraill, er enghraifft recordiad sain neu fideo mewn Iaith Arwyddion Prydain. I ymateb drwy ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain:

- Anfonwch recordiad ohonoch chi’n defnyddio’r iaith arwyddion i gyfleu eich ymateb. Ni ddylai’r recordiad bara mwy na 5 munud. Dyma’r fformatau ffeil addas: ffeiliau QuickTime, wmv neu DVD. Neu
- Gwnewch fideo ohonoch chi’n defnyddio’r iaith arwyddion i gyfleu’ch ymateb, a’i lwytho yn syth i YouTube (neu safle cynnal arall), ac anfon y ddolen atom ni.

A1.6 Byddwn yn cyhoeddi trawsgrifiad o unrhyw ymatebion sain neu fideo a gawn (oni bai fod eich ymateb yn gyfrinachol)

A1.7 Nid oes angen i ni gael copi papur o’ch ymateb yn ogystal â fersiwn electronig. Byddwn yn cydnabod derbyn ymatebion os cânt eu cyflwyno drwy ddefnyddio’r ffurflen ar-lein ar y we ond nid fel arall.

A1.8 Nid oes yn rhaid i chi ateb pob cwestiwn yn yr ymgynghoriad os nad oes gennych chi safbwynt; mae ymateb byr ar ddim ond un pwynt yn iawn. Rydym hefyd yn croesawu ymatebion ar y cyd.

A1.9 Byddai’n ddefnyddiol petai modd i’ch ymateb gynnwys atebion uniongyrchol i’r cwestiynau sy’n cael eu gofyn yn y ddogfen ymgynghori. Mae’r cwestiynau’n cael eu rhestru yn Atodiad

4. Byddai'n ddefnyddiol hefyd petai modd i chi egluro pam eich bod yn arddel eich safbwyntiau, a beth rydych chi'n ei gredu fyddai effaith cynigion Ofcom.

A1.10 Os ydych chi eisiau trafod y materion a'r cwestiynau sydd wedi cael eu codi yn yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â'r tîm drwy anfon e-bost at ImpactAssessmentGuidance@ofcom.org.uk.

## Cyfrinachedd

A1.11 Mae ymgynghoriadau'n fwy effeithiol os ydym yn cyhoeddi'r ymatebion cyn i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben. Yn benodol, gall hyn fod o gymorth i bobl a sefydliadau sy'n brin eu hadnoddau neu heb fod yn gyfarwydd iawn â'r materion dan sylw i ymateb yn fwy gwybodus. Felly, er mwyn bod yn dryloyw a sicrhau arferion rheoleiddio da, ac oherwydd ein bod yn credu ei bod yn bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld barn ymatebwyr eraill, byddwn fel arfer yn cyhoeddi'r holl ymatebion ar ein gwefan cyn gynted ag y byddwn yn eu cael.

A1.12 Os ydych chi'n meddwl y dylid cadw eich ymateb yn gyfrinachol, a fyddech chi cystal â nodi i ba ran(nau) mae hyn yn berthnasol, ac egluro pam. Anfonwch unrhyw adrannau cyfrinachol fel atodiad ar wahân. Os ydych am i'ch enw, eich cyfeiriad, manylion cyswllt eraill, neu deitl eich swydd aros yn gyfrinachol, rhowch y manylion hynny ar y ddalen gyflwyno'n unig, fel na fydd rhaid i ni olygu'ch ymateb.

A1.13 Os bydd rhywun yn gofyn i ni gadw ymateb cyfan neu ran ohono yn gyfrinachol, byddwn yn trin y cais hwn o ddifri ac yn ceisio ei barchu. Ond weithiau bydd angen i ni gyhoeddi pob ymateb, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu nodi'n rhai cyfrinachol, er mwyn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol.

A1.14 Sylwch hefyd y cymerir bod yr hawlfraint a phob eiddo deallusol arall sydd mewn ymatebion wedi'u rhoi o dan drwydded i Ofcom i'w defnyddio. Caiff hawliau eiddo deallusol Ofcom eu hegluro ymhellach yn ein Telerau Defnyddio.

## Y Camau Nesaf

A1.15 Ar ôl y cyfnod ymgynghori hwn, rydym yn bwriadu cyhoeddi fersiwn terfynol o'r canllawiau newydd ar asesu effaith yn gynnar yn Ch3 2023.

A1.16 Gallwch chi gofrestru i gael diweddariadau post i roi gwybod i chi am gyhoeddiadau newydd Ofcom.

## Prosesau ymgynghori Ofcom

A1.17 Mae Ofcom yn ceisio sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl ymateb i ymgynghoriad. I gael rhagor o wybodaeth, edrychwch ar ein hegwyddorion ymgynghori yn Atodiad 2.

A1.18 Os oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau am y modd rydym yn rheoli ein hymgynghoriadau, anfonwch neges e-bost atom yn consult@ofcom.org.uk. Rydym yn arbennig o falch o gael syniadau ynghylch sut gallai Ofcom fod yn fwy effeithiol wrth ofyn

am farn grwpiau neu unigolion, fel busnesau bach a defnyddwyr preswyl, sy’n llai tebygol o roi eu barn drwy ymgynghoriad ffurfiol.

A1.19 Os hoffech drafod y materion hyn, neu brosesau ymgynghori Ofcom yn gyffredinol, cysylltwch ag ysgrifennydd y gorfforaeth:

Ysgrifennydd y Gorfforaeth
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
Llundain SE1 9HA
E-bost: corporationsecretary@ofcom.org.uk

# A2. Egwyddorion Ofcom ar gyfer ymgynghori

## Mae gan Ofcom saith egwyddor y mae'n eu dilyn ar gyfer pob ymgynghoriad ysgrifenedig cyhoeddus:

### Cyn yr ymgynghoriad

A2.1 Os oes modd, byddwn yn cynnal sgyrsiau anffurfiol gyda phobl a chyrff cyn cyhoeddi ymgynghoriad mawr er mwyn cael syniad a ydym yn meddwl yn y cyfeiriad iawn. Os nad oes gennym ddigon o amser i wneud hyn, byddwn yn cynnal cyfarfod agored i egluro ein cynigion yn fuan ar ôl cyhoeddi'r ymgynghoriad.

### Yn ystod yr ymgynghoriad

A2.2 Byddwn yn glir ynghylch pwy rydym yn ymgynghori â nhw, pam, ar ba gwestiynau ac am ba hyd.

A2.3 Byddwn yn gwneud y ddogfen ymgynghori'n un mor fyr ac mor syml ag y bo modd gyda chrynodeb o ddim mwy na dwy dudalen. Byddwn yn ceisio ei gwneud mor hawdd â phosibl i bobl roi ymateb ysgrifenedig i ni. Os yw'r ymgynghoriad yn gymhleth, efallai y byddwn yn darparu canllaw Cymraeg Clir / Plain English i helpu sefydliadau llai neu unigolion na fyddent yn gallu rhoi o'u hamser i rannu eu barn fel arall.

A2.4 Byddwn yn ymgynghori am gyfnod o hyd at ddeg wythnos yn dibynnu ar effaith bosibl ein cynigion.

A2.5 Bydd rhywun yn Ofcom yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn dilyn ein canllawiau ein hunain ac yn ceisio cyrraedd y nifer fwyaf o bobl a sefydliadau sydd â diddordeb o bosibl yng nghanlyniad ein penderfyniadau. Hyrwyddwr Ymgynghori Ofcom yw'r prif unigolyn i gysylltu ag ef os oes gennych chi farn am y ffordd rydym yn cynnal ein hymgynghoriadau.

A2.6 Os na fyddwn yn gallu dilyn unrhyw un o'r saith egwyddor hyn, byddwn yn egluro pam.

### Ar ôl yr ymgynghoriad

A2.7 Rydyn ni'n credu ei bod hi'n bwysig bod pawb sydd â diddordeb mewn mater yn gallu gweld safbwyntiau pobl eraill. Felly, fel rheol, byddwn yn cyhoeddi pob ymateb ar ein gwefan cyn gynted ag y byddant yn dod i law. Ar ôl yr ymgynghoriad byddwn yn gwneud ein penderfyniadau ac yn cyhoeddi datganiad sy'n egluro beth fyddwn ni'n ei wneud, a pham, gan ddangos sut mae safbwyntiau ymatebwyr wedi helpu i siapio'r penderfyniadau hyn.

# A3. Dalen gyflwyno'r ymgynghoriad

## MANYLION SYLFAENOL

Teitl yr ymgynghoriad:

At (swyddog cyswllt yn Ofcom):

Enw'r ymatebydd:

Yn cynrychioli (eich hun neu sefydliad(au)):

Cyfeiriad (os na ddaeth i law drwy e-bost):

## CYFRINACHEDD

Ticiwch isod i ddangos pa ran o'ch ymateb sydd yn eich barn chi yn gyfrinachol, gan roi'ch rhesymau am hynny

| | |
|---|---|
| Dim | ☐ |
| Enw/manylion cyswllt/teitl swydd | ☐ |
| Yr ymateb cyfan | ☐ |
| Sefydliad | ☐ |
| Rhan o'r ymateb | ☐ |

Os nad oes atodiad ar wahân, pa rannau? ____________________________________________

________________________________________________________________________________________

Os ydych am i ran o'ch ymateb, eich enw neu eich sefydliad beidio â chael ei chyhoeddi, a all Ofcom barhau i gyhoeddi cyfeiriad at gynnwys eich ymateb (gan gynnwys, ar gyfer unrhyw rannau cyfrinachol, crynodeb cyffredinol nad yw'n datgelu'r wybodaeth benodol nac yn eich galluogi i gael eich adnabod)?

## DATGANIAD

Rwyf yn cadarnhau bod yr ohebiaeth sydd wedi'i rhoi gyda'r ddalen gyflwyno hon yn ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad y gall Ofcom ei gyhoeddi. Fodd bynnag, wrth roi'r ymateb hwn, rwy'n deall y gallai fod angen i Ofcom gyhoeddi'r holl ymatebion, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u marcio'n rhai cyfrinachol, er mwyn cyflawni dyletswyddau cyfreithiol. Os wyf wedi anfon fy ymateb drwy neges e-bost, gall Ofcom ddiystyru unrhyw destun e-bost safonol ynghylch peidio â datgelu cynnwys ac atodiadau'r neges e-bost.

Mae Ofcom yn ceisio cyhoeddi ymatebion wrth iddynt ddod i law. Os nad yw eich ymateb yn gyfrinachol (yn gyfan gwbl neu'n rhannol), ac y byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi'ch ymateb nes bod yr ymgynghoriad wedi dod i ben, ticiwch yma.

Enw Llofnod (os yw'n gopi papur)

# A4. Cwestiynau'r ymgynghoriad

A3.

A4.

A4.1 Rydym yn cynnig diweddaru ein canllawiau ar asesu effaith i adlewyrchu'r newidiadau yn Ofcom ers cyhoeddi canllawiau 2005, ac i wneud y canllawiau'n fwy defnyddiol. Byddem yn croesawu sylwadau ar y cwestiwn isod.

| |
|---|
| Cwestiwn 1: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar ein canllawiau newydd arfaethedig? |